Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

Rhagfyr 2023

**I: Holl Aelodau'r Cartref sydd wedi cofrestru gyda Chanolfan Iechyd Tredegar**

Annwyl glaf,

**Symud Safle —Canolfan Iechyd Tredegar, Blaenau Gwent**

Rwy'n falch o allu eich hysbysu bod Canolfan Iechyd a Lles newydd Bevan bellach bron â chael ei chwblhau a byddwch yn gallu cael mynediad i'ch Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol o'r safle hwn ar yr 22ain o Ionawr 2024. Fel claf/ cleifion sydd wedi cofrestru gyda'r feddygfa, nid oes rhaid i chi wneud unrhyw beth, **byddwch yn parhau i fod wedi cofrestru gyda Chanolfan Iechyd Tredegar.**

Mae Canolfan Iechyd Tredegar hefyd yn newid ei henw i Ganolfan Feddygol Tredegar ddydd Llun y 22ain o Ionawr 2024.

**Cyfeiriad newydd y practis fydd: -**

**Canolfan Iechyd a Lles Bevan**
Canolfan Feddygol Tredegar
Park Row
Tredegar
NP22 3NG

**Rhif Ffôn: (01495) 360 485**

Sylwch y bydd y feddygfa'n symud ei holl offer TG a'u ffonau draw i'r safle newydd ddydd Gwener y 19eg o Ionawr 2024, felly dim ond gwasanaeth brys a fydd ar gael yn y practis ar y dyddiad hwn a byddant yn brysbennu pob claf. Os bydd angen gweld claf wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod hwn, byddant yn cael eu gwahodd i'r hen safle. Bydd safle Canolfan Iechyd Tredegar yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn a bydd aelod o staff yno i gefnogi a chynghori unrhyw glaf sy'n dod i'r safle. Bydd pob presgripsiwn

rheolaidd yn cael ei brosesu yng Nghanolfan Iechyd Tredegar yn ystod y cyfnod hwn.
Bydd safle presennol Canolfan Iechyd Tredegar yn cau yn barhaol ddydd Llun 22 Ionawr 2024 a bydd yr holl Wasanaethau Meddygol Cyffredinol a ddarperir yno ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i Ganolfan Iechyd a Lles Bevan.

Bydd Gwasanaethau Fferylliaeth Gymunedol Canolfan Iechyd Tredegar ar agor fel arfer ddydd Gwener 19 Ionawr 2024 a bydd y Gwasanaethau Fferylliaeth yn symud i'r safle newydd yng Nghanolfan Iechyd a Lles Bevan ddydd Llun yr 22ain o Ionawr 2024.

Bydd staff presennol y practis hefyd yn symud i'r adeilad newydd a byddant yn parhau i'ch cynorthwyo gyda'ch holl anghenion gofal iechyd, gan sicrhau eich bod yn gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol pan fo angen. Yn ystod y cyfnod pontio, gofynnwn yn garedig i chi fod yn amyneddgar gydag aelodau'r tîm wrth iddynt ddod i arfer â gweithio yn eu lleoliad newydd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â rheolwr y practis, Julie Price, ar **01495 722 530**

Yr eiddoch yn gywir,



Lloyd Hambridge
**Cyfarwyddwr yr Is-Adran, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol**
**Aneurin Bevan University Health Board**